**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/96/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

28 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gyntaf ar 23 Mai 2013, wedi'i ddiweddaru. Cyhoeddwyd y Concordat diwygiedig ar 24 Chwefror 2025 ac mae i'w weld yma.

Mae'r Concordat hwn yn sefydlu fframwaith cytunedig i sicrhau cysylltiad a chydweithrediad agos parhaus rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol ar bob mater sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar swyddogaethau gweinidogion Cymru ac i'r gwrthwyneb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.